Cerdded i'r man gwyrdd

Trosolwg

Mae cerdded i fan gwyrdd lleol yn brofiad cyffredin cyffrous sy'n helpu plant i deimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cymdogaeth. Bydd y siwrnai ei hun yn dod yn rhan o'r dysgu, a bydd yn cynnig amser i sylwi, rhyfeddu, a chymryd rhan mewn heriau cyffredin bach ar y ffordd.



Gweithgareddau

Mae'r plant yn dod ynghyd mewn cylch i drafod ble y maent yn mynd, ac maent yn cyfrif y rhif hud. Yna, mae'r grŵp yn cerdded yn hamddenol mewn parau. Ar y ffordd, mae'r oedolion yn cyflwyno heriau bach, e.e sylwi ar liwiau neu glustfeinio am synau, ac yn oedi i wirio'r rhif hud. Ar ôl cyrraedd, mae'r grŵp yn ymgasglu unwaith eto i gyfrif, gosod ffiniau a dechrau chwarae.

Offer

Cofrestr neu restr cyfrif (i wirio'r rhif hud)
Ffôn symudol wedi'i wefru yn llawn
Pecyn cymorth cyntaf
Manylion cyswllt mewn argyfwng
Dŵr yfed (yn dibynnu ar y tywydd)
Hylif diheintio'r dwylo
Dillad sy'n briodol i'r tywydd
Unrhyw eitem y cytunwyd arni i alw pawb yn ôl (cloch, tambwrîn, chwiban, neu giw ar ffurf cân)

Gosod ffiniau ar ôl cyrraedd

- Cerddwch gyda'ch gilydd fel trên o gwmpas yr ardal chwarae a ddewiswyd, a helpwch y plant i weld a theimlo ble mae ffiniau'r safle.
- Yna, mae'r oedolion yn marcio'r ffiniau â rhuban neu ddefnydd llachar, lliwgar a glymir wrth goed, pyst neu farcwyr naturiol.
- Trafodwch sut mae symud yn ddiogel o fewn y man dan sylw a ble i ofyn am help os oes angen.
- Ailgerddwch ar hyd y ffiniau ar ddechrau pob ymweliad, fel bod y plant yn teimlo'n hyderus ac yn ddiogel cyn bod y chwarae'n dechrau.